Proffil Swydd/Job Profile

Teitl y Swydd – Gweithiwr Cymdeithasol
Post Title – Social Worker

Adran	Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
Department	Social Services & Housing
Is-Adran/Adain	Gofal Cymdeithasol Oedolion / Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Division/Section	Adult Social Care / Mental Health and Learning Disabilities
Gradd/Grade	I/J
Rhif y Swydd/Post Number	009471
Paratowyd Gan/Prepared By	Corinne Everett-Guy, Uwch Reolwyr Timau Gwaith Cymdeithasol/Senior Manager Social Work Teams
Dyddiad/Date	Gorffennaf/July 2025

Disgwylir i bob gweithiwr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein Fframwaith Ymddygiad a Gwerthoedd, a chynnal egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os ydynt yn gweithio mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad

Every employee is expected to uphold the authority's core values reflected within our Behaviour and Values Framework and maintain the principles of the authority's Equality and Diversity Policy or, if employed within a school, the school's Equality and Diversity Policy, as appropriate to the accountabilities and seniority of the post within the organisation.

Prif Ddiben y Swydd

- Darparu cymorth Gwaith Cymdeithasol ac Asesu/Rheoli Gofal ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr.
- Cyfrannu at ddatblygu a gwella'n barhaus y gwasanaethau a ddarperir i'r cleientiaid

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo a datblygu diben, ymarfer ac effaith gweithwyr cymdeithasol yn y sefydliad a gyda rhanddeiliaid ehangach, gan chwarae rhan flaenllaw o ran datblygiad y tîm.
- Bod yn esiampl gadarnhaol ar gyfer gwaith cymdeithasol.

Prif dasgau/cyfrifoldebau

1. Darparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol o safon i ddefnyddwyr y gwasanaeth drwy weithredu'r Côd Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol, meithrin ymddiriedaeth a hyder, parchu a chefnogi hawliau defnyddwyr y gwasanaeth, gan eu hamddiffyn, ar yr un pryd â hyrwyddo'u hannibyniaeth.
2. Ar y cyd â defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, cynnal asesiadau o anghenion, a lle bo anghenion yn gymwys ar gyfer derbyn cymorth gofal cymdeithasol, llunio cynllun gofal gyda'ch gilydd sy'n diwallu'r anghenion hynny orau gyda'r adnoddau sydd ar gael.
3. Dehongli deddfwriaeth wrth weithio gydag Oedolion Agored i Niwed a bod yn atebol am y dehongliad hwn
4. Rheoli achosion er mwyn rhoi blaenoriaeth i ofynion statudol a gweithredol priodol.
5. Sicrhau bod cofnodion achosion yn cael eu cadw mewn modd priodol, a chydymffurfio â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn hwyluso monitro, cynllunio a datblygu gwasanaethau.
6. Ymgymryd â hyfforddiant/goruchwyliaeth a chymryd rhan ynddynt er mwyn sicrhau y cynhelir safonau ac ansawdd gwaith.
7. Cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau o'r sectorau statudol, preifat, gwirfoddol ac annibynnol, er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau cynhwysfawr sydd wedi eu llunio'n benodol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.
8. Datblygu arbenigedd penodol mewn maes gwaith o fewn y grŵp cleientiaid (e.e. Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl, Diogelu), datblygu ymarfer fel y bo'n briodol a phan fo angen, arwain datblygiad polisi ac ymarfer tîm a gwasanaeth mewn gwasanaeth mewn meysydd penodol
9. Gweithio mewn gweithgorau traws-gyfarwyddiaeth gan glustnodi meysydd i'w gwella a datblygu polisi ac ymarfer mewn meysydd sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol
10. Cymryd cyfrifoldeb unigol dros ddarnau unigol o waith prosiect a systemau a llunio arweiniad polisi ac ymarfer ar gyfer yr adran yn ôl y galw.
11. Rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr, a'u teuluoedd, ynghyd â siarad o'u plaid er mwyn sicrhau bod eu dymuniadau a'u sylwadau'n cael ystyriaeth lawn.

12. Cydymffurfio ag egwyddorion Côd Ymarfer y Gofal Cymdeithasol Cymru .
13. Cymryd rhan mewn systemau dyletswydd a gytunwyd er mwyn hyrwyddo hygyrchedd ei wasanaeth a gofal da i gwsmeriaid.
14. Dirprwyo gwaith i'r staff cynnal yn y tîm a goruchwylio eu gwaith.
15. Dirprwyo a goruchwylio ac arwain ymarferwyr heb gymwysterau yn eu gwaith achos. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio a dyrannu gwaith lle bo'n briodol.

Ynghylch Dyletswyddau Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl

16. Yn dilyn hyfforddiant addas, neu os ydych eisoes yn Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, ymarfer yn unol â threfniadau'r Awdurdod ar gyfer darparu gwasanaeth AMHP.
17. Fel Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, ymgymryd â'r nifer gofynnol o sesiynau dyletswydd fel rhan o'r rota dydd.
18. Fel Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, lle bo angen ac yn dilyn hyfforddiant addas, ymgymryd â'r nifer gofynnol o asesiadau yn ymwneud â gweithredu Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (Deddf Galluedd Meddyliol 2005 fel y'i diwygiwyd) gan weithredu yn rôl Asesydd Lles Pennaf.
19. Os ydych yn Weithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, ymgymryd ag o leiaf 4 diwrnod o hyfforddiant gloywi sgiliau gan gynnwys mynychu fforwm AMHP Chwarterol yr Adran.
20. Ar yr adegau priodol, cwblhau Portffolio Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl ar gyfer ail-awdurdodi yn unol â gofynion yr Adran.
21. Cydymffurfio â'r disgwyliadau yn unol â gohebiaeth yr adran sy'n eich awdurdodi i ymarfer fel AMHP ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin.
22. Fel Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, paratoi adroddiadau ar gyfer yr Adran a'i chynrychioli mewn cyfarfodydd perthnasol a Gwrandawiadau (e.e. Tribiwnlysoedd Adolygiadau Iechyd Meddwl, Gwrandawiadau Rheolwyr Ysbytai, cyfarfodydd Gofal a Chynllunio Triniaeth ac Ôl-ofal S117).
23. Fel Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, cynnal llwyth achosion diffiniedig o bobl sy'n destun Rhan 2 o Fesur Cynllunio Gofal a Thriniaeth (Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'r rhai sydd yn destun neu sydd wedi bod yn destun Deddf Iechyd Meddwl 1983.
24. Fel Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl, gweithredu'n unol â Chodau Ymarfer a rheoliadau perthnasol y Ddeddf Iechyd Meddwl gan gynnwys polisi a gweithdrefnau adrannol ar gyfer ymarfer Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl.
25. Fel Gweithiwr Proffesiynol ym maes Iechyd Meddwl, gweithredu fel tiwtor ymarfer ar gyfer ymarferwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant Gweithiwr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl.

Gweithwyr Cymdeithasol profiadol

26. Arwain gwaith llys, gan gydgysylltu â gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a mynychu gwrandawiadau llys yn ôl y gofyn.
27. Rheoli lefel uwch o gymhlethdod, gan gynnig barn arbenigol yn fewnol ac i weithwyr proffesiynol eraill ynghyd â'r gallu i gyfiawnhau'r penderfyniadau a wneir.

28. Modelu a hyrwyddo arferion rhagorol, a mentora aelodau newydd o'r Timau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd/Gwasanaethau Oedolion ehangach, gan gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol yn eu blwyddyn ymarfer gyntaf. 29. Dangos rhinweddau arweinyddiaeth broffesiynol gan ddefnyddio awdurdod a herio'n briodol.
Yn gyfrifol am staff/offer
Ymarferwyr nad ydynt wedi cymhwyso
Yn atebol i
Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol

Meini Prawf Hanfodol

Cymwysterau, Hyfforddiant galwedigaethol ac Aelodaeth Broffesiynol

- Cymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig e.e. Gradd mewn gwaith cymdeithasol, Diploma Gwaith Cymdeithasol, Tystysgrif Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol
- Wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Tystiolaeth o Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL).
- Ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso CPEL, mae'n rhaid eu bod wedi cwblhau eu Blwyddyn
- Ymarfer Gyntaf a Rhaglen Gadarnhau o fewn 3 blynedd er mwyn cydymffurfio â gofynion cofrestru.
- Bod yn Asesydd Budd Pennaf hyfforddedig neu'n barod i gyflawni'r cymhwyster pan fo hyfforddiant priodol ar gael.
- Os nad ydych eisoes wedi cyflawni'r cymhwyster, dangos parodrwydd i ddod yn athrawes ymarfer.
- Pan fo'r swydd yn cael ei hysbysebu'n benodol fel un ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl (AMHP), mae'n rhaid dangos tystiolaeth o gymhwyster a gallu i gyflawni'r rôl honno.

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol:

- Wedi cyflawni rhaglenni Ôl-gymhwyso a Datblygiad Proffesiynol Parhaus perthnasol, a allai gynnwys bod yn Addysgwr Ymarfer sydd â myfyrwyr yn eu hail flwyddyn a'u trydedd flwyddyn, yn Aseswr Budd Pennaf, bod yn AMHP â thrwydded sy'n ymarfer ar hyn o bryd, neu gyfwerth.
- Dangos Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ymchwil yn barhaus.

Y sgiliau sy'n ymwneud â'r swydd a Galluoedd

- Y gallu i gynnal asesiadau cymhleth o ddefnyddwyr y gwasanaeth ac i lunio cynlluniau gofal.
- Y gallu i gyfrannu i waith tîm effeithiol.
- Y gallu i ddangos empathi o ran anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.
- Y gallu i ddefnyddio TG
- Y gallu i flaenoriaethu gwaith ar sail yr amcanion y cytunwyd arnynt, a chwblhau tasgau.
- Y gallu i ddangos hunan-gymhelliant cryf yn y swydd.

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol yn gwneud y canlynol:

- Cymhwyso ac ymarfer gwneud penderfyniadau mwy annibynnol.
- Ymgymryd ag ymarfer arbenigol ac effeithiol mewn sefyllfaoedd cymhleth, gan asesu a rheoli lefelau uchel o risg a chydbwyso cymorth a rheolaeth

Gwybodaeth

- Cymhwyso egwyddorion a gwerthoedd wrth ymdrin â'r cleientiaid
- Deddfwriaeth berthnasol
- Dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr y gwasanaeth
- Dealltwriaeth o ddulliau gweithredu amlddisgyblaeth
- Prosesau Asesu a Rheoli Gofal

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol yn gwneud y canlynol:

- Dangos defnydd medrus o ystod o fframweithiau ar gyfer ymyriadau cymhleth.

Profiad

- Profiad diweddar o weithio gyda'r grŵp cleientiaid perthnasol.
- Profiad diweddar o weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Profiad diweddar o weithio gyda phobl sydd ag anghenion cymhleth sy'n berthnasol i'r swydd

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol yn meddu ar y canlynol:

- Profiad o arwain gwaith llys a mynychu gwrandawiadau llys.
- leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ac wedi cwblhau rhaglen atgyfnerthu Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL).

Rhinweddau personol

- Arddangos ymrwymiad cadarn i hyrwyddo arferion gwrthwahaniaetho.
- Amlygu ymrwymiad pendant o ran cyfrinachedd y cleientiaid.
- Yn gallu teithio.

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol yn gwneud y canlynol:

- Dangos yr hyder i gydweithio'n gyfartal â gweithwyr proffesiynol eraill ac uwch-swyddogion yn ôl y galw.
- Cyfathrebu'n fedrus ac yn gymwys mewn sefyllfaoedd cymhleth neu risg uchel.
- Dangos rhinweddau arweinyddiaeth broffesiynol gan ddefnyddio awdurdod a herio'n briodol.

Meini Prawf Dymunol

- Lle nad yw'n cael ei hysbysebu fel swydd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy ym maes Iechyd Meddwl (AMHP), bod yn barod i weithio tuag at fod yn AMHP.
- Profiad o gynnal asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a mynd i gynadleddau achos Budd Pennaf.

Sgiliau Iaith /Cyfathrebu

Cliciwch ar y ddolen - Pa lefel ydych chi?

Cymraeg	**Sgiliau Llafar Lefel 2**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 1**
Saesneg	**Sgiliau Llafar Lefel 5**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 5**
Arall (nodwch)		

GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

Gall fod gwiriadau DBS yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi lle bydd angen gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y swydd hon

Adran A – y math o ddatgeliad **Datgeliad Manwl gan wirio'r rhestr wahardd**

Adran B – y math o weithlu **Y gweithlu plant ac oedolion**
Adran C – A yw'n ofyniad
ar gyfer adnewyddiadau DBS 3 blynedd neu
DBS wedi cofrestru ar y gwasanaeth diweddaru **Ie**

Y RHESWM

Bydd deilydd y swydd yn cael cyswllt uniongyrchol 1: 1 gyda defnyddwyr gwasanaeth a phobl agored i niwed a fydd yn golygu gweithio ar eich pen eich hun

UNRHYW WYBODAETH ARALL

Disgwylir y bydd gan ddeiliad y swydd agwedd hyblyg at y dyletswyddau, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rhain gael eu hamrywio yn ôl anghenion y gwasanaeth ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd. Byddai'r union ddyletswyddau yn cael eu penderfynu ar sail y gwasanaeth gweithredol a'r cleientiaid.

Gweithwyr Cymdeithasol profiadol
Mae llwybr dilyniant gyrfa ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n dymuno parhau i ymarfer, yn hytrach na rheoli, wedi'i ddatblygu ac mae'n agored i bob gweithiwr cymdeithasol sy'n credu ei fod yn bodloni'r meini prawf.

Bydd angen i Weithwyr Cymdeithasol fod wedi cwblhau eu rhaglen atgyfnerthu neu wedi cymhwyso cyn i'r rhaglen gael ei chyflwyno a chael o leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso cyn gwneud cais am ddilyniant Gweithiwr Cymdeithasol Profiadol.

Os ydych yn credu eich bod yn bodloni meini prawf Gweithiwr Cymdeithasol Profiadol, bydd angen i chi ddangos hyn drwy ddarparu datganiad ategol (heb fod yn fwy na 2 ochr o dudalen A4) sy'n nodi sut rydych yn bodloni'r gofynion.

Main Purpose of Job

- To provide Social Work support, Assessment/Care Management for service users and their carers.
- To participate in the continuous improvement and development of services to the client group.

- **Experienced Social Workers will:**

- Promote and develop social workers' purpose, practice, and impact within the organisation and with wider stakeholders, playing a leading role in the development of the team.
- Be a positive role model for social work.

Key responsibilities

1. To provide a quality social work service to service users by implementing the Code of practice for social workers, building trust and confidence, respecting and upholding the rights of service users, protecting them, whilst promoting their independence.
2. In conjunction with service users and carers, undertake needs assessments and where needs are eligible for social care support, together develop a care plan which bests meets those needs within available resources.
3. To interpret legislation in working with Vulnerable Adults and be accountable for this interpretation
4. To manage a caseload in order that priority is given to appropriate statutory and operational requirements.
5. To ensure the proper maintenance of case records and to follow agreed procedures in order to facilitate monitoring, planning and development of services.
6. To undertake and participate in training/supervision to ensure that standards and quality of work are maintained.
7. To liaise and work in partnership with a variety of agencies from the statutory, private, voluntary and Independent sector to ensure the provision of comprehensive services specifically designed to meet identified need.
8. To develop specific expertise in an area of work within the client group(eg Learning Disabilities, Mental Health, Safeguarding), developing practice as appropriate and when required, lead the development of team and service policy and practice in service in specific areas
9. To work in cross directorate working groups identifying areas for improvement and developing policy and practice in service specific areas
10. To take individual responsibility for individual pieces of project and systems work and produce policy and practice guidance for the department as required.
11. To act as an information resource and advocate for services users, their carers and families in order to ensure their wishes and views are fully taken into account.
12. To comply with the principles of the Social Care Wales Code of Practice.
13. To participate in agreed duty systems to promote accessibility of its service and good customer care.
14. To delegate to and supervise the work of support staff within the Team.
15. To delegate to and supervise and guide unqualified practitioners in their case work with unqualified practitioners. This will include directing and allocating work where appropriate.

In respect of Approved Mental Health Professional Duties

16. Following suitable training, or where already an Approved Mental Health Professional, to practice in accordance with the Authority arrangements for providing an AMHP service.
17. As an Approved Mental Health Professional, to undertake the required number of duty sessions as part of the daytime rota.
18. As an Approved Mental Health Professional, where required and following suitable training to undertake the required number of assessments in respect of the implementation of Deprivation of Liberty Safeguards (Mental Capacity Act 2005 as amended) acting in the role of Best Interests Assessor.
19. Where an Approved Mental Health Professional to undertake a minimum of 4 days refresher training including attendance at the Department's Quarterly AMHP forum.
20. At the required intervals to complete the Approved Mental Health Professional Portfolio for reauthorisation as required by the Department.
21. To comply with the expectations of you in accordance with the departmental correspondence authorising you to practice as an AMHP on behalf of Carmarthenshire County Council.
22. As an Approved Mental Health Professional to prepare reports for and represent the Department at relevant meetings and Hearings (eg, Mental Health Review Tribunals, Hospital Managers Hearings, Care & Treatment Planning & S117 Aftercare meetings).
23. As an Approved Mental Health Professional to hold a defined caseload of people subject to Part 2 of Care & treatment planning (Mental Health (Wales) Measure 2010 and those who are or have been subject to the Mental Health Act 1983.
24. As an Approved Mental Health Professional to act in accordance with relevant Mental Health Act codes of Practice and regulations including the departmental policy and procedures for Approved Mental Health Professional practice.
25. As an Approved Mental Health Professional to act as practice tutor for practitioners undertaking Approved Mental Health Professional training.

Experienced Social Workers will:

26. Lead on Court work, liaising with legal professionals and attending Court hearings as required.
27. Manage a higher level of complexity, offering expert opinion internally and to other professionals with the ability to justify decision making.
28. Model and promote excellent practice, and mentor new members in the wider Children and Families Services/Adult Services Teams, including first year in Practice Social Workers.
29. Demonstrate professional leadership qualities with the appropriate use of authority and challenge.

Responsible for staff/equipment
Unqualified staff member
Reporting to
Social Work Team Manager

Essential Criteria

Qualifications, Vocational training and Professional Memberships

- A recognised social work qualification e.g. Degree in social work, Dip S.W, C.Q.S.W.
- Be registered to practice with Social Care Wales. Evidence of Continuing Professional Education and Learning (CPEL).
- For newly qualified Social Workers CPEL, with regard to First Year in Practice and
- Consolidation must be completed within 3 years to comply with registration requirements.
- To be a trained Best Interest Assessor or be prepared to undertake the qualification when appropriate training is available.
- If not already undertaken, to evidence a willingness to become a practice teacher.
- Where the post is specifically advertised as an AMHP, to be able to evidence qualification and competency as such

Experienced Social Workers will:

- Have undertaken relevant Post Qualifying and CPD programmes, which could include being a Practice Educator who has 2nd and 3rd year Students, Best Interest Assessor, be a licensed and practising AMHP, or equivalent.
- Continuously demonstrate CPD and research.

Job Related Skills and Competencies

- Ability to undertake complex assessments of service users and create care plans.
- Ability to contribute to effective team working.
- Ability to show empathy to the needs of the service user group.
- Ability to use IT
- Ability to prioritise work on basis of agreed objectives and completion of tasks.
- Ability to show self-motivation within job role.

Experienced Social Workers will:

- Apply and practice more autonomous decision making.
- Undertake expert and effective practice in complex situations, assessing and managing high levels of risk, balancing support and control.

Knowledge

- Principles and values applied to client group
- Relevant Legislation
- Understanding of the Needs of Service group
- Understanding of multi disciplinary working
- Processes of Assessment and Care Management

Experienced Social Workers will:

- Demonstrate a skilled use of a range of frameworks for complex interventions.

Experience

- Recent experience of working with relevant client group.
- Recent experience of working in a joint health and social care setting
- Recent experience working with people who have complex needs relevant to the position

- **Experienced Social Workers will:**
- Be experienced in leading on court work and attending Court hearings.
- Have a minimum of 3 years post qualifying experience and have completed CPEL consolidation.

Personal qualities

- Demonstrate a firm commitment to the promotion of anti-discriminatory practice.
- To demonstrate a clear commitment to client confidentiality.
- Ability to travel.

Experienced Social Workers will:

- Demonstrate the confidence to collaborate on equal terms with other professionals and senior officers as required.
- Communicate skilfully and competently in complex or high-risk situations.
- Demonstrate professional leadership qualities with the appropriate use of authority and challenge.

Desirable Criteria

- Where not advertised as an AMHP post, to be willing to work towards becoming one.
- Evidence of experience of undertaking Mental Capacity Act assessments and attending Best Interest case conferences

Language and Communication Skills

Click on the link What level are you?

Welsh	**Spoken Level 2**	**Written level 1**
English	**Spoken Level 5**	**Written level 5**
Other (please State)		

DISCLOSURE AND BARRING SERVICES (DBS) CHECKS

DBS Checks may be required for certain posts which work with children and vulnerable adults. This post requires:

Section A – type of disclosure **Enhanced Disclosure with Barred list check**

Section B – workforce type **Child and Adult Workforce**
Section C – Does the post require 3 yearly DBS renewals or registration with the DBS online update service? **Yes**

JUSTIFICATION

Post-holder will have direct 1:1 contact with service users and vulnerable people which will involve lone working with families and children

ANY OTHER INFORMATION

The Post Holder will be expected to adopt a flexible attitude to duties which may have to be varied subject to the needs of the service and in keeping with the general profile of the post. Precise duties would be determined by the operational service setting and client base.

Experienced Social Workers

A career progression pathway for social workers who wish to remain in practice, as opposed to management, has been developed and is open to all social workers who believe they meet the criteria.

Social Workers will need to have completed their consolidation programme or have been qualified prior to the implementation of the programme and have a minimum of 3 years post qualifying experience before applying for Experienced Social Worker progression.

Where you believe you meet the criteria of an Experienced Social Worker, you will need to demonstrate this by providing a supporting statement (no more than 2 A4 sides) which sets out how you meet the requirements.